**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**–**
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
**–**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol

22 Mai 2024

Annwyl Dawn,

Elw mewn cartrefi gofal oedolion

Yn ystod trafodaeth ddiweddar y Pwyllgor o’i flaenraglen waith, cododd rhai Aelodau bryderon am yr elw sy'n cael ei wneud gan rai cartrefi gofal oedolion, gan nodi adroddiad y Ganolfan ar gyfer Atebolrwydd ac Ymchwil Treth Gorfforaethol Ryngwladol (CICTAR) (2023) ar godi elw trwy eiddo tiriog cartrefi gofal. Mae adroddiad CICTAR yn canolbwyntio ar elw un darparwr cartrefi gofal mawr, 'Care UK', sydd â chadwyn o gartrefi gofal ledled y DU, gan gynnwys dau yng Nghaerdydd.

Rydym yn ymwybodol nad yw darparwyr mawr fel y rhain ond yn rhan fach o’r farchnad cartrefi gofal yng Nghymru, a bod y mwyafrif o gartrefi gofal i bobl hŷn yng Nghymru yn eiddo i berchennog unigol sy’n berchen ar un cartref gofal neu’n eiddo i berchennog sydd â llai na phum cartref gofal. Yn 2020, roedd cartrefi gofal sy’n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol yn llai na 9 y cant o gyfanswm y lleoedd mewn cartrefi gofal sydd ar gael yng Nghymru.


Mae’r Pwyllgor hefyd yn ymwybodol o waith y Grŵp Arbenigol ar Wasanaeth Gofal Cenedlaethol, a datganiad Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2024 ynghylch sefydlu’r Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol y bwriedir iddo bennu’r egwyddorion a’r safonau ar gyfer arferion comisiynu.

Yn 2003, yn eich cynllun gweithredu cychwynnol tuag at wasanaeth gofal a chymorth cenedlaethol, cyfeiriwch at rai o argymhellion y Grŵp Arbenigol, gan nodi y byddwch yn bwrw ymlaen â’r gwaith a gychwynnwyd o dan y rhaglen Dileu a’r rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth er mwyn egluro ‘elw’ a nodweddion sefydliadau nid-er-elw.

Gyda hyn mewn golwg, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn nodi, yn fanwl, safbwynt presennol Llywodraeth Cymru ar rôl elw yn y farchnad cartrefi gofal i oedolion, gan gynnwys eich barn am adroddiad CICTAR ac a oes gennych unrhyw gynlluniau i weithio tuag at ddileu elw ar draws y sector gofal i oedolion.

Yn ogystal, byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb i'r argymhelliad gan y Grŵp Arbenigol y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i feintioli lefelau gwariant a gollwyd i'r sector drwy elw, mecanwaith comisiynu, elw a wneir gan ecwiti preifat ar gyfleusterau gofal, ac ar gynnal a chadw diwydiant rheoleiddio i fonitro darparwyr.

Yn gywir,



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.